

## Cystadleuaeth 366

### Barddoniaeth Bl.12 a 13: *Adre*

### Beirniadaeth Gruffudd Antur

1. Fflam **366/9**
2. Ceridwen **366/5**
3. Annibynnol **366/6**

Petai'r dyddiad cau ar gyfer y gystadleuaeth hon wedi syrthio fis yn ddiweddarach, ar 1 Ebrill yn hytrach nag ar 1 Mawrth, rwy'n siŵr y byddai'r ymatebion i'r testun *Adre* wedi bod yn dra gwahanol a ninnau erbyn hynny'n gaeth i'n cartrefi. Cafwyd sawl gwahanol *adre* gan y naw ymgeisydd: o'r Ysgwrn i ffosydd y Rhyfel Mawr ac o focsys cardfwrdd y stryd fawr i'r gymuned Ewropeaidd.

Mae tri ymgeisydd yn dringo i dir sydd fymryn yn uwch, sef **Annibynnol**, **Ceridwen** a **Fflam**. Golygfa angladdol sydd gan **Annibynnol**, sef gwraig yn angladd ei gŵr, a hwnnw wedi'i golli'n ifanc. Mae naws arbennig i'r gerdd hon, ac mae yma gyffyrddiadau grymus fel 'yn urddasol o ddiurddas'. Cafwyd soned gan **Ceridwen**, mesur twyllodrus o anodd i ganu arno. 'Criad *Big Issue*' sydd yma, ac yn yr wythawd mae'r bardd yn ymddangosiadol feirniadol a gwawdlyd ohonynt, ond yn y chwechawd mae'r safbwynt yn fwy cydymdeimladol â'r bobl sy'n 'crafu byw' ar y strydoedd.

Ond **Fflam** sy'n mynd â hi. Mewn ffordd, nid yw cerdd **Fflam** mor uchelgeisiol â rhai **Annibynnol** a **Ceridwen**, ond i mi, y *ffordd* mae rhywbeth yn cael ei ddweud, nid *beth* sy'n cael ei ddweud, sy'n bwysig. Dyhead dau gariad am gael gweld ei gilydd sydd yma, ac o feddwl bod y gerdd wedi'i sgrifennu cyn dyddiau'r hunan-ynysu mawr, mae'n rhyfedd o amserol. Gŵyr **Fflam** sut mae ailadrodd geiriau i greu effaith a bod grym arbennig mewn symrlwydd. Mae'n llwyr deilyngu'r wobr.